

Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd, Safonau Amgylcheddol yr Alban, ac Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

1. Cefndir

Mae'r Memorandwm hwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer perthynas waith rhwng Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS), Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) a Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Nid yw'r amgylchedd yn cydnabod ffiniau ac felly mae'r angen i adeiladu a chynnal perthynas waith gref â'n gilydd yn sylfaenol. Bydd hyn, yn ei dro, yn gymorth i bob sefydliad gyflawni nod gyffredin y partïon o ddiogelu'r amgylchedd yn well a gwneud gwelliannau.

Nod y Memorandwm hwn yw cynorthwyo'r partïon i gydweithio a chydweithredu ar feysydd o ddiddordeb cyffredin.

2. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd

Sefydlwyd Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP) o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021 a'i swyddogaeth yw diogelu a gwella'r amgylchedd drwy ddal y llywodraeth ac awdurdodau cyhoeddus eraill i gyfrif. Mae ei gwaith yn cwmpasu Lloegr a Gogledd Iwerddon a materion amgylcheddol a gadwyd yn ôl i lywodraeth y DU. Mae'n gyfrifol am graffu ar gynlluniau gwelliannau amgylcheddol a thargedau, craffu ar gyfraith amgylcheddol, cynghori'r llywodraeth ynghylch cyfraith amgylcheddol a materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol, ac ymchwilio i achosion difrifol o dorri cyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus ynghyd â gorfodi.

Safonau Amgylcheddol yr Alban

Sefydlwyd Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS) o dan Ddeddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (yr Alban) 2021 (Deddf Parhad) y DU, er mwyn sicrhau y cedwir at gyfreithiau a safonau amgylcheddol yn yr Alban. Swyddogaeth ESS yw craffu, ymchwilio a sicrhau gwelliannau yn y modd y mae awdurdodau cyhoeddus yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol, a'r ffordd y mae'n cael ei gweithredu a'i chymhwyso yn yr Alban.

Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

Sefydlwyd swyddogaeth Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) i roi mecanwaith i aelodau'r cyhoedd ar gyfer codi pryderon ynghylch y modd y mae cyfraith amgylcheddol yn gweithio yng Nghymru. Mae'r IEPAW yn ystyried cyflwyniadau o'r fath ac, os yw'n briodol, yn llunio cyngor i Weinidogion Cymru gan wneud argymhellion ynglŷn â champau y mae'n credu y gallai fod angen eu cymryd. Yn wahanol i'r OEP a'r ESS, ni all IEPAW ystyried achosion o dor-cyfraith. Mae cylch gorchwyl Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ar gael [yma](#).

3. Egwyddorion Cydweithredu

Mae gan yr OEP ddyletswyddau cyfreithiol i ymgynghori ag ESS ac IEPAW lle bo'n berthnasol fel y nodir o dan adran 27(4) o Ddeddf yr Amgylchedd 2021. Mae darpariaethau tebyg yn gymwys i ESS ymgynghori ag OEP ac unrhyw gorff llywodraethu arall yn y DU fel sy'n berthnasol o dan A23(3) o'r Ddeddf Parhad. Mae ESS, IEPAW a'r OEP yn bwriadu i'w perthynas waith gael ei nodweddu gan fwriad cyffredin i gydweithredu ar sail yr egwyddorion a ganlyn:

- a) Parch at statws annibynnol pob parti.
- b) Bwriad i gydweithio mewn meysydd lle mae'r partïon yn ystyried bod hyn yn fuddiol, er enghraifft mewn meysydd lle mae buddiannau cyffredin, er mwyn gwella effeithlonrwydd ac osgoi dyblygu.
- c) Canolbwyntio ar feysydd lle mae pwrpas cyffredin a lle gall y partïon wneud gwahaniaeth drwy gydweithredu.
- d) Yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol perthnasol, bod y partïon yn ddidwyll ac yn dryloyw yn y ffordd y maent yn ymwneud â'i gilydd ac yn y modd y maent yn arfer swyddogaethau statudol sy'n gofyn am rannu gwybodaeth.
- e) Gweithredu dull 'dim syndod', yn enwedig lle gallai penderfyniadau a champau gweithredu sy'n cael eu hystyried gan y naill barti gael goblygiadau ar gyfer y llall/lleill

4. Meysydd Cydweithio

Mae ESS, IEPAW a'r OEP yn bwriadu cydweithio yn y meysydd a ganlyn fel y bo'n briodol ac yn angenrheidiol:

- a) Trosglwyddo a chyfeirio sylwadau, cyflwyniadau a chwynion rhwng y partïon lle maent yn ymwneud ag awdurdodaeth parti arall
- b) Rhannu data amgylcheddol sydd ar gael i'r cyhoedd a data amgylcheddol arall lle bo hynny'n gyfreithiol bosibl
- c) Rhannu gwybodaeth, profiad ac arfer gorau
- d) Rhannu gwybodaeth sganio'r gorwel ac unrhyw wybodaeth ddefnyddiol a allai gynorthwyo pob parti yn ei swyddogaethau
- e) Trafod cwestiynau cyffredin ar sut i ddehongli a gweithredu cyfraith amgylcheddol
- f) Rhannu arfer gorau â'i gilydd a dealltwriaeth ynghylch y gwaith ymarferol y mae parti'n ei gynnal, fesul achos, pan ystyrir hynny'n ddefnyddiol
- g) Rhannu dulliau o fynd i'r afael â materion amgylcheddol trawsffiniol, ffisegol ac awdurdodaethol hefyd (gan gynnwys mewn perthynas â materion a gadwyd yn ôl)
- h) Cydweithio ar brosiectau penodol lle mae'n amlwg y bydd cydweithio o fudd
- i) Cydgysylltu â sefydliadau rhyngwladol lle mae cydweithredu o fudd

5. Ffyrdd o Weithio

5.1. Cyfarfodydd cyswllt

Bydd cynrychiolwyr y partïon yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod meysydd o ddiddordeb i bob ochr. Gall grwpiau hefyd ffurfio ar bwnc penodol a chyfarfod i gydweithio ar unrhyw rai o'r meysydd a grybwyllwyd dan adran 4.

Bydd pob parti yn enwebu cynrychiolydd ar gyfer y Memorandwm hwn i sicrhau bod egwyddorion cydweithredu yn cael eu cynnal a'r gwaith o sefydlu cysylltiadau gwaith cryf yn parhau.

5.2. Cyfarfod Staff Uwch

Bydd cyfarfodydd ar gyfer Prif Weithredwyr, Asesydd Interim Cymru, Cadeiryddion a thimau Gweithredu, o bryd i'w gilydd drwy gydol y flwyddyn fel y bo'n briodol. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar feithrin perthynas adeiladol a thrafod materion sydd o ddiddordeb i bob ochr.

5.3. Datrys Anghytundeb

Pan fydd parti'n nodi problem neu anghytundeb wrth weithredu'r Memorandwm hwn, bydd yn ceisio ei ddatrys yn gyflym ac yn anffurfiol gyda'r partïon eraill. Bydd cynrychiolwyr y partïon (a nodwyd dan 5.1) yn cytuno ar y ffordd orau o ddatrys y mater ar lefel briodol. Dim ond pe bernid ei bod yn angenrheidiol y câi mater ei gyfeirio i lefelau uwch a byddai eu penderfyniad hwy'n derfynol.

Dylai'r partïon gadw'r egwyddor o gydweithredu 3(a) mewn cof, parchu statws annibynnol ei gilydd, a chofio y gall fod gwahaniaethau weithiau o ran dehongliad a dull o weithio.

5.4. Cyfrinachedd Gwybodaeth

Bydd ESS, IEPAW a'r OEP yn ystyried cyfrifoldebau statudol ei gilydd mewn perthynas â datgelu gwybodaeth sensitif.

Nid yw'n fwriad gan y partïon i'r Memorandwm hwn gynnwys rhannu unrhyw ddata personol rhyngddynt. Os bydd partïon yn dymuno rhannu data personol, bydd y partïon dan sylw yn cydymffurfio â'u polisi diogelu data a'u hysbysiadau preifatrwydd perthnasol eu hunain. Gallai hyn ei gwneud yn ofynnol iddynt ymrwymo i gytundeb neu drefniant ysgrifenedig ynghylch rhannu data personol o'r fath neu ofyn yn gyntaf am gymeradwyaeth gan yr unigolion dan sylw.

Pan fydd parti'n derbyn cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth (Yr Alban) 2002, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (yr Alban) 2004 neu Ddeddf Diogelu Data 1998 neu 2018, bydd yn ymgynghori â'r partïon eraill cyn datgelu gwybodaeth fyddai'n effeithio ar gyfrifoldebau'r partïon eraill.

5.5. Rheoli'r Memorandwm

Gall unrhyw barti awgrymu diwygiadau i'r Memorandwm hwn ond bydd angen cymeradwyaeth pawb i wneud newid.

Mae'r Memorandwm hwn yn cychwyn ar y dyddiad a nodir ar frig tudalen un. I ddechrau, caiff y Memorandwm ei adolygu ymhen 12 mis i'r dyddiad hwn ac wedi hynny bob dwy flynedd neu pan wneir newidiadau i statws cyfreithiol parti. Caiff ei adolygu hefyd os bydd angen newid yr egwyddorion cydweithredu a ddisgrifir uchod a/neu os byddant yn peidio â bod yn berthnasol am unrhyw reswm arall.

Nid yw'r Memorandwm hwn yn gyfreithiol rwymol, ond mae pob parti'n bwriadu gweithredu o fewn ei delerau.

Cyhoeddir y Memorandwm hwn ar wefan pob parti er mwyn sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael gweld sut mae'r partïon yn bwriadu cydweithio.

Llofnodwyd ar ran OEP:

.....
Enw a theitl swydd:

Dyddiad:

Llofnodwyd ar ran ESS:

.....
Enw a theitl swydd:

Dyddiad:

Llofnodwyd ar ran IEPAW:

.....
Enw a theitl swydd:

Dyddiad: